# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024

**Yn bresennol:**

**Aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Dr John Williams
- Helen Taylor
- Dave Holland
- Georgia Taylor

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a’r Deyrnas Unedig
- Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a’r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Jonathan Davies – Pennaeth Polisi Safonau a Diogelu Defnyddwyr
- Lowri Williams – Uwch-reolwr Cyfathrebu

**Cyflwynwyr:**

- Jon Wood – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir
- Kathryn Thurlow – Llywodraeth Cymru
- Emma Burgess – Lewis Pies
- Helen Taylor – Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE

**Arsylwyr:**

Cynrychiolwyr o’r canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Sir Gâr
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan Jessica Williams. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Chwefror 2024.

## 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. Tirwedd busnesau bwyd Cymru a heriau ar gyfer twf ac arloesedd

3.1 **Jon Wood, Rheolwr Tîm y Diwydiant, Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (SRS) –** Roedd y cyflwyniad yn trafod sut mae SRS yn ymgysylltu â busnesau ac yn helpu busnesau bwyd i gydymffurfio. Amlinellodd Jon rôl tîm y Diwydiant Gwasanaethau Arbenigol sy'n cynnwys swyddogion medrus iawn o bob rhan o swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, a thynnodd sylw at sut mae SRS yn gweithio gyda busnesau i'w cefnogi i gydymffurfio a sut mae'r tîm wedi defnyddio gwahanol lwyfannau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, digwyddiadau diogelwch bwyd a phodlediad 'Gofynnwch i'r Rheoleiddiwr' i ymestyn eu cyrhaeddiad a darparu arbenigedd i weithredwyr busnesau bwyd. Rhoddodd Jon drosolwg hefyd o sut mae SRS wedi meithrin yn raddol berthnasoedd rhwng y Prif Awdurdod a busnesau, a manylodd ar y gwasanaethau cymorth eraill y telir amdanynt sydd ar gael, gan gynnwys cyngor HACCP, adolygiadau labelu bwyd a chyngor ar alergeddau ymhlith pethau eraill.

3.2 Roedd cwestiynau gan y pwyllgor ynghylch cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas â hyfforddiant ar draws awdurdodau lleol a diddordeb ynghylch y perthnasoedd â'r Prif Awdurdod a chyngor gwarantedig.

3.3 **Kathryn Thurlow, Uwch-reolwr Arloesi a Thechnoleg Bwyd, Llywodraeth Cymru** – Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith tîm Technoleg Bwyd, Arloesi a Chlystyrau Llywodraeth Cymru sydd â'r weledigaeth gyffredinol o greu sector bwyd cryf a bywiog yng Nghymru gydag enw da byd-eang am ragoriaeth, gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y byd. Esboniodd Kathryn fod rhai o'r heriau sy'n wynebu Cymru'n cynnwys heb fod â'r dirwedd i gynhyrchu'r holl gynhwysion crai sydd eu hangen, a bod yn ddibynnol ar fasnach y DU a masnach fyd-eang. Oherwydd hynny, mae materion byd-eang yn effeithio ar Gymru'n hawdd. Gall bwydydd newydd hefyd achosi heriau. Mae busnesau bach yng Nghymru eisiau bod yn arloesol a defnyddio cynhwysion newydd, ond nid ydynt yn deall yn llawn y broses a'r amser sydd ei angen ar gyfer cymeradwyo. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, dywedodd Kathryn fod gan Gymru ystod gynhwysfawr o gymorth i fusnesau bwyd a diod trwy'r rhaglenni fel Arloesi Bwyd Cymru a'r Rhaglen Datblygu Masnach. Mae'r tîm hefyd yn casglu gwybodaeth am y farchnad drwy'r Clystyrau a'r rhwydweithiau cysylltiedig, sy'n cwmpasu Bwydydd Cain, Diodydd, Bwyd y Môr, Nutri-Wales, Garddwriaeth, Cynaliadwyedd ac Allforion. Soniodd Kathryn hefyd sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i annog a chefnogi ceisiadau UKGI/EUPFN yn weithredol gan bob is-sector yng Nghymru ac i weithio gyda llywodraeth y DU/partneriaid, i hyrwyddo'r rhaglen allweddol hon o gymorth i ddiwydiant bwyd a diod Cymru. Mae 20 o gynhyrchion bwyd a diod cofrestredig gyda statws Dangosydd Daearyddol wedi'u cofrestru yng Nghymru ar hyn o bryd, sef mwy o gynhyrchion pro-rata fesul poblogaeth nag unrhyw wlad arall yn y DU.

3.4 Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gallem gysylltu cydweithwyr gwyddoniaeth yr ASB â Chlwstwr Prifysgolion ac Ymchwil Llywodraeth Cymru a'r manteision y gallai hyn eu darparu. Roedd y pwyllgor hefyd â diddordeb mewn clywed am y clwstwr cynaliadwyedd a'r cymorth sydd ar gael i fusnesau i leihau eu hôl troed carbon.

3.5 **Emma Burgess, Rheolwr Technegol, Lewis Pies** – rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r busnes sydd bellach yn ei drydydd genhedlaeth o'r teulu Lewis. Dyma fusnes bach a chanolig sy'n cyflogi 91 o aelodau o staff. Esboniodd Emma eu bod yn weithgynhyrchwr blaenllaw o gynhyrchion crwst sawrus a melys fel peis, pasteiod a rholiau, sydd hefyd yn arbenigo mewn cynhyrchion figan a Halal. Mae eu cwsmeriaid yn cynnwys cyfanwerthu i ddarparwyr gwasanaethau bwyd, diwydiannau teithio a

hamdden, partneriaethau brand a siopau bwyd ledled De a Gorllewin Cymru. Mae'r cwmni wrthi'n creu eu brand premiwm 'Wilfreds', ac yn canolbwyntio ar dyfu a buddsoddi yn y dyfodol wrth feithrin diwylliant o arloesi a gwelliant parhaus. Rhoddodd Emma wybod am rai o'r heriau technegol y mae'r busnes yn eu hwynebu gan gynnwys recriwtio staff a phrinder sgiliau, diffyg dealltwriaeth dechnegol yn y busnes ehangach, y ffaith nad yw BRCGS bellach yn un safon i bawb, a chynnal momentwm gyda diwylliant diogelwch bwyd ac ansawdd. Cyfeiriodd Emma hefyd at yr heriau ehangach i'r busnes, gan gynnwys costau ynni a deunyddiau sy'n cynyddu, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Tynnodd Emma sylw hefyd at y gefnogaeth y mae'r busnes wedi'i gael gan ZERO2FIVE mewn perthynas â BRCGS, hyfforddiant, gweithdai a fforwm yr arweinwyr technegol.

3.6 Roedd gan WFAC ddiddordeb mewn clywed sut mae rheoliadau newidiol wedi effeithio ar y busnes ac sut mae'r busnes bellach yn addasu i'r rhain.

3.7 **Helen Taylor, Cyfarwyddwr Technegol, Canolfan Diwydiant Bwyd (FIC) ZERO2FIVE** – rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith ZERO2FIVE ac Arloesi Bwyd Cymru. Manylodd Helen ar bedwar prif flaenoriaeth y ganolfan: Cymorth i'r Diwydiant, Llywodraeth Cymru, Addysg, ac Ymchwil. Amlinellodd Helen y cymorth sydd ar gael i'r diwydiant drwy Brosiect HELIX, a rhoddodd enghreifftiau hefyd o sut mae'r FIC wedi darparu cymorth technegol i bartneriaid yn y diwydiant ar ddiogelwch bwyd (HACCP), hylendid ffatrïoedd, dylunio ffatrïoedd ac offer, gan edrych ar sut y gall busnesau wella proffil maetholion cynhyrchion, i enwi ond ychydig. Mae'r FIC hefyd yn cynorthwyo gyda chymorth ar reoli prosesau, gan gynnwys dilysu cynhyrchion a phrosesau, mapio gwerth a llif gwastraff, a chostau cynhyrchion. Rhoddodd Helen wybod bod yr FIC yn gweithio ar weithdy rheoli digwyddiadau argyfwng a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer busnesau bach a fydd yn cael ei lansio yn yr hydref. Esboniodd Helen sut mae'r FIC fel rhan o Arloesi Bwyd Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnal digwyddiadau fel Blas Cymru, trefnu ymweliadau a chyfrannu at Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Yna trafododd Helen rôl yr FIC ym myd addysg, gan esbonio bod y BSC Iechyd Amgylcheddol a gynigir ym Mhrifysgol Met Caerdydd yn unigryw, gan mai dyma'r unig gwrs sydd wedi'i gymeradwyo gan dri chorff. Ar adeg y cyfarfod, roedd 45 o fyfyrwyr yn

ymgymryd ag amrywiol brosiectau gan gynnwys gwaith ar giniawau ysgol a chynhyrchion siwgr isel. Mae israddedigion hefyd yn cael briffiau gan bartneriaid yn y diwydiant i weithio arnynt ac yn defnyddio eu gwybodaeth am ddiogelwch bwyd. Rhoddodd Helen drosolwg hefyd o'r Grwpiau Ymchwil Diogelwch Bwyd, Listeria a Maeth a Gwyddoniaeth.

3.8 Cafwyd trafodaeth ynghylch y trefniadau ariannu i fusnesau gael mynediad at wasanaethau'r FIC, ac roedd gan WFAC ddiddordeb mewn clywed am y rhaglen i raddedigion lle mae graddedigion yn cael eu lleoli mewn busnesau i gael profiad a mentora pellach.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth a gynhaliwyd yn Leeds a'r ymweliad diddorol â'r cwmni MicroSearch sy'n cynnal profion dadansoddol a sgrinio ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwyr (Papur 24/04/02)

5.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr UKIA ddiweddariad ar llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am adnoddau milfeddygon a'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau. Yna, rhoddodd Cyfarwyddwr Cymru'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynhyrchion Rheoleiddiedig ac ymgysylltu â gweinidogion.

## 7. Unrhyw fater arall

7.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 16 Gorffennaf.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.